60. Rhos Glandenys

Cross Inn, Ceredigion

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 199 yr A.O., Llanbedr Pont Steffan. Prif fynedfa: SN539650; Canolfan y safle: SN538650
Statws	
Daliadaeth	Prynwyd y rhydd-ddaliadaeth yn 1989 gyda chymorth grant gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.
Maint	2.4 he (5.9 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Parcio oddi ar y ffordd i 2 gar. Ceir mynediad drwy giât mochyn ac ni ellir defnyddio cadair olwyn yn y fan yma. Er hynny, ceir dwy giât fferm, ond mae weiren ar y rhain yn ystod tymor pori'r ceffylau. Ceir pont gyda chamfa dros safle corsiog yn y pen gorllewinol, i gysylltu'r 3 chae ar y safle. Mae'r safle'n wastad ond ceir dwy ardal eang o wlybdir.
Cludiant cyhoeddus	Nid yw'r safle ar lwybr rheolaidd unrhyw fws. 1 bws yr wythnos i ac o Aberaeron bob dydd Mercher ac 1 bws yr wythnos i ac o Lanrhystud bob dydd Gwener. Arosfan bws i'r ddau yn y groesffordd gyferbyn â thafarn Rhos yr Hafod, y Cross Inn. Rhaid cerdded 1km i gyrraedd y warchodfa.

Disgrifiad: Porfa o ros a nant.
Gellir rhannu Rhos Glandenys yn 3 adran o laswelltir gwlyb, cyfoethog mewn rhywogaethau, gyda mosaig o gymunedau cysylltiedig â gwlybaniaeth amrywiol y tir. Mae'n enghraifft ragorol o laswelltir 'rhos' gwlyb yng Ngheredigion. Mae wedi'i amgylchynu gan gloddiau gyda rhywogaethau cymysg yn y gwrychoedd, helyg yn bennaf, a choetir bychan o brysgwydd.

Ceir llu o adar y gwrychoedd yma, yn cynnwys Llwyd y Berth, y Robin Goch, yr Aderyn Du a'r Dryw Bach, ac mae'r Troellwr Bach wedi nythu ar y safle hefyd. Mae Telor yr Helyg a'r Siff-Saff yn ymwelwyr cyffredin yn ystod yr haf. Ceir ardaloedd o ddŵr yn sefyll ar y safle ac mae'r Gïach Gyffredin a'r Cyffylog yn ymwelwyr rheolaidd yn ystod yr hydref / gaeaf ac ar ddechrau'r gwanwyn.

Mae'r safle'n nodedig am y llu o Degeirianau Cors y De (6-7) a welir yma, a gellir gweld Tegeirianau Brith y Rhos (6-7) yma hefyd, yn ogystal ag arddangosfa hyfryd yn ystod yr haf o Garpiog y Gors (5-7), Distrewlys (7-8), Bara'r Cythraul (6-10) a Phys Mawr y Ceirw (6-8).

rhos glandenys2 1 10/7/06 9:13:37 am



Nodau Rheoli: Cynnal y cynefin presennol ar gyfer y rhywogaethau o bwysigrwydd cadwriaethol arbennig, drwy gael ceffylau i bori'r safle drwy gydol yr haf ac ar ddechrau'r hydref. Mae'r brwyn mewn un adran yn cael eu topio'n flynyddol i sicrhau cynnydd yn yr amrywiaeth botanegol a bydd y gwrychoedd yn cael eu rheoli drwy eu plygu yn y dyfodol.

Amser da i ymweld	
Mawrth - Awst	Blodau'r borfa ros
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu
Mehefin	Y tegeirianau'n blodeuo
Hydref - Chwefror	Y Gïach Gyffredin a'r Cyffylog

rhos glandenys2 2 10/7/06 9:13:38 am